*Cafodd yr Offeryn Statudol hwn ei ailargraffu er mwyn cywiro rhif yr offeryn a dyroddir ef yn ddi-d 226 l i bawb y gwyddys eu bod wedi derbyn OS 2010/1791(Cy.173)*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1797 (Cy.173)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Gorffennaf 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Gorffennaf 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Awst 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 31 Awst 2010.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio

**3.** Diwygir Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2009(**3**) yn unol â'r rheoliad canlynol.

**4.** Yn nhestun Cymraeg rheoliad 28—

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adran 146 ac Atodlen 11 iddi, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7 iddi a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22), adran 257.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159)(C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2009/3359 (Cy.295).

(a) yn lle "rheoliad 33" rhodder "rheoliad 27"; a

(b) yn lle "rheoliad 27" rhodder "rheoliad 29".

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

10 Gorffennaf 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009").

Mae Rheoliadau 2009 yn darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs dynodedig ym maes addysg uwch yn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar 1 Medi 2010 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall drafftio yn nhestun Cymraeg rheoliad 28 o Reoliadau 2009.